Cyngor Sir y Fflint, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3FF

# HYSBYSIAD STATUDOL

## Cynnig i Ad-drefnu'r Ddarpariaeth Addysg Gatholig yn Sir y Fflint

**Creu un ysgol Gatholig 3-18 oed yn Sir y Fflint drwy:**

1. **Cau ysgolion cynradd Catholig Sant Anthony, Sant David a'r Santes Fair, ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn**
2. **Creu un ysgol Gatholig ddilyniannol 3-18 oed**

Hysbysir drwy hyn yn unol ag Adran 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, bod Cyngor Sir y Fflint, ar ôl ymgynghori â'r bobl sy'n ofynnol, yn cynnig cau'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir canlynol:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Stryd Fawr, Saltney CH4 8SG.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant David, St David's Lane, Yr Wyddgrug CH7 1LH
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, Ffordd Llewelyn, y Fflint CH6 5JZ
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, Albert Avenue, y Fflint CH6 5JZ

Rhoddir hysbysiad hefyd yn unol ag Adran 41 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 bod Esgobaeth Gatholig Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint, ar ôl ymgynghori â'r bobl sy'n ofynnol, yn bwriadu sefydlu Ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir newydd cyfrwng Saesneg ar gyfer merched a bechgyn 3-18 oed (cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "yr ysgol newydd"). Mae ysgolion categori 'Gwirfoddol a Gynorthwyir' yn ysgolion eglwys ac mae'r Archesgobaeth yn cyfrannu at gostau adeiladau ac yn cael dylanwad sylweddol ar drefniadau'r ysgolion. Mae'r corff llywodraethu yn cyflogi'r staff ac yn nodi meini prawf derbyn. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dewis ar sail dawn na system bandio disgyblion.

Bydd yr ysgol newydd wedi'i lleoli ar Ffordd Llewelyn / Albert Avenue, y Fflint CH6 5JZ.

Capasiti cyffredinol yr ysgol newydd fydd 1185 o ddisgyblion llawn amser. Bydd y nifer hwn yn cynnwys 315 o ddisgyblion cynradd llawn amser a 750 o ddisgyblion uwchradd llawn amser. Darperir 120 o leoedd chweched dosbarth ar gyfer disgyblion rhan amser. Darperir 45 o leoedd blwyddyn meithrin ar gyfer disgyblion rhan amser. At ddibenion derbyniadau ysgol, y nifer a gaiff eu derbyn fydd 45 mewn i grŵp blwyddyn Derbyn ar gyfer disgyblion llawn amser, yn ogystal â 150 o ddisgyblion llawn amser a gaiff eu derbyn i Flwyddyn 7.

Os cytunir a gweithredir y cynnig hwn bydd Ysgolion Cynradd Sant David a'r Santes Fair, yn ogystal ag Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn dod i ben ar 31 Awst 2026. Bydd strwythur llywodraethu'r ysgol ddilyniannol newydd y dechrau ar 01 Medi 2026. I bob pwrpas, bydd yr ysgol 3-18 oed yn cael ei sefydlu ar safleoedd presennol Sant David, y Santes Fair a Sant Richard Gwyn ac yn trosglwyddo i'r adeilad newydd pan fydd yn barod.

**Mae'n bwysig nodi y cynigir y bydd Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Stryd Fawr, Saltney CH4 8SG yn cau ar 31 Awst 2026 ac ni fydd yn rhan o'r ysgol newydd arfaethedig.**

Manylion yr ysgol/ysgolion amgen y gall y disgyblion ei/eu mynychu:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Cyfrwng Saesneg yr Hybarch Edward Morgan, Caernarfon Close, Shotton CH5 1AR
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Cyfrwng Saesneg Santes Winefride, Whitford Street, Treffynnon CH8 7NJ
- Yr Ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Newydd Cyfrwng Saesneg 3-18, Ffordd Llewelyn/Albert Avenue, y Fflint CH6 5JZ

Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar ddewis rhieni ac yn amodol ar y lleoedd sydd ar gael. Gall rhieni fynegi ffafriaeth tuag at yr ysgolion dan sylw, neu ysgol arall, a bydd yr Awdurdod Derbyn yn cydymffurfio ag unrhyw ddewis o'r fath a fynegir yn amodol ar Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Adran 86 (3).

Bydd trefniadau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ar gyfer disgyblion yr ysgol newydd a'r rheiny sy'n dewis mynd i ysgol amgen, yn cynnwys y rheiny a fydd yn mynd i ysgol amgen na restrir uchod, yn cael eu trin gan gyfeirio at Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Sir y Fflint. Gellir gweld y manylion yn: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Transport-Application.aspx

Cynhaliodd Esgobaeth Gatholig Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint, gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael ar wefan y Cyngor: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Catholic-Education-Proposal.aspx
Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymuned a Chludiant wedi'u cynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae copïau ar gael yn yr un ddolen uchod.

**Cynigir y bydd Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2026**

O fewn cyfnod o 28 diwrnod i'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig, hynny yw erbyn
**23:59 ar 15 Rhagfyr 2025**, gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion.
Dylid anfon gwrthwynebiadau, naill ai drwy'r post neu drwy e-bost, i:

- Tîm Moderneiddio Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint CH5 3FF
- E-bost: CatholicEducationConsultation@flintshire.gov.uk

Gwnewch yn siŵr bod unrhyw wrthwynebiad a gyflwynir yn cynnwys enw llawn a chyfeiriad post y gwrthwynebydd.

Llofnod ……[signature]…… **17 Tachwedd 2025**

**Claire Homard**
Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid, Cyngor Sir y Fflint

NODYN ESBONIADOL

- Mae gan Gyngor Sir y Fflint gyfrifoldeb i adolygu a moderneiddio holl ddarpariaeth ysgolion, er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr, fel y gallant gyflawni eu potensial yn llawn.
- Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod nifer ddigonol o leoedd mewn ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir.
- Mae'r angen i gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio a'r isadeiledd ategol yn anghynaladwy
- Nodwyd y rhesymeg dros y cynnig hwn mewn Dogfen Ymgynghori a gyhoeddwyd ar 3 Mehefin 2025.
- Mae'r materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi'u crynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori, sydd hefyd yn nodi ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Mae'r Adroddiad Ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Catholic-Education-Proposal.aspx
- Gellir gofyn am gopi caled o'r adroddiad Ymgynghori gan y Tîm Moderneiddio Ysgolion (cysylltwch â'r manylion uchod) neu dros y ffôn ar 01352 704014, 01352 704018 neu 01352 702188.
- Gallai'r dyddiad a ragwelir y bydd disgyblion yn cael eu symud i adeilad yr ysgol newydd, sef 1 Medi 2029, newid yn dibynnu ar y rhaglen adeiladu.